EISTEDDFOD 2025

# 602. Parti Llefaru

Detholiad heb fod yn hwy na 4 munud o ‘Y Clawdd (Cyfres o Gerddi)’
gan Bryan Martin Davies

Rhaid cynnwys y gerdd gyntaf, 'Ynom mae y Clawdd' fel rhan o’r cyflwyniad: gellir ei llefaru ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad, neu ei phlethu gyda cherdd neu gerddi eraill o’r gyfres

## 1

## YNOM MAE Y CLAWDD

Ynom mae y Clawdd a phob ymwybod,
y tir hwn a godwyd
rhyngom a’r gwastadedd blin,
y pridd pêr a’r cerrig Cymreig
sy’n ceulo’n gaer yng nghelloedd y cof,
ac sy’n crynu fel grym yng ngwthiadau’r gwaed.
Ar ei lechwedd ac ar ei geuedd
fe ddeilia’r deri a’r ynn
fel penderfyniadau gwyrdd
yn naear ein dihewyd,
a'r masarn hefyd
sy’n ymestyn ac yn lledu’n llawn
fel bloedd,
fel buddugoliaeth
yn llysoedd ein hewyllys brwd.
Tu draw i’r brig,
llathraidd yw cangau’r llwyfen
a dyf fel llafnau noeth
sy’n hawlio haul;
hwythau hefyd a ymdreiddiant
fel y gwna geiriau,
weithiau,
hyd at fêr.

Ynom mae y Clawdd a phob ymwybod,
y tir hwn a godwyd
rhyngom a’r gwastadedd blin.

## 2

## GOLAU AR Y CLAWDD

Heddiw,
                    daeth goleuni i’r Clawdd,
a’i goed sy’n gawodydd o liw
rhyngof a’r tir llwyd.

Cryndod o fioled yw cysgodion y deri,
ac adeg o indigo sy’n chwarae
yn rhychion y rhisgl hen.
Yn asiad ceinciau
gwyro a wna glas,
a gwyrdd yw gwaniadau’r haul
ym mrigau’r ynn.
Melyn sy’n llathru
yn amlinelliadau’r llwyfen,
ac oren yw’r wawr ar awyr
lle tyf clystyrau cochion
y newyddfrig brau.

Heddiw,
                    daeth goleuni i’r Clawdd,
a llefain mae’r lliwiau arnom
                    fel iaith,
i’w siarad,
i’w darllen,
ac i’w deall.

## 3

## NOS AR Y CLAWDD

Nos a ddisgyn ar y Clawdd
    fel ochenaid,
a gwyro wna'r coed tua'r gorwel.

Gwasgu mae cymylau'r cyfnos
    fel sodlau dur
ar war y deri,
a llaes yw breichiau'r llwyfen
yng nghadwynau'r gwyll.
Noeth yw cnawd yr onnen
    i frathiad bidogau'r tywyllwch,
a phenlinia'r masarn
    dan lach gogleddwynt.

Goresgynnwyd y Clawdd heno,
a sgrech brigau
sy'n rhewi awyr
dan artaith
    imperialaeth y nos.

EISTEDDFOD 2025

# 602. Parti Llefaru

### Detholiad heb fod yn hwy na 4 munud o 'Y Clawdd (Cyfres o Gerddi)'
### gan Bryan Martin Davies

Rhaid cynnwys y gerdd gyntaf, 'Ynom mae y Clawdd' fel rhan o'r cyflwyniad: gellir ei llefaru ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad, neu ei phlethu gyda cherdd neu gerddi eraill o'r gyfres

**4**

## GWANWYN AR Y CLAWDD

Parod yw'r pridd hwn
i wisgo gwaed,
ac yn ei gelloedd
ymgronna'r egni dig
a fu'n llefain
yn Argoed Llwyfain,
a fu'n llathru
ar lafnau yng Nghatráeth.

Parod yw'r pridd hwn
i warchod ffin,
ac yn ei wair,
disglair yw'r dewrder
a fu'n gwenu
ar Ryd Forlas,
a fu'n gwanu'r tywyllwch
ym Mhengwern.

Parod yw'r pridd hwn
i alw arnom,
ac i goed hen gydwybod
daw dail ein haddewidion
fel gwefr gwyrdd
i gynhesu canghennau'r galon,
a gwyddom
mai gwanwyn heddiw
sy'n cerdded y Clawdd.

# 602. Parti Llefaru

Detholiad heb fod yn hwy na 4 munud o 'Y Clawdd (Cyfres o Gerddi)'

gan Bryan Martin Davies

Rhaid cynnwys y gerdd gyntaf, 'Ynom mae y Clawdd' fel rhan o'r cyflwyniad: gellir ei llefaru ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad, neu ei phlethu gyda cherdd neu gerddi eraill o'r gyfres

## 5

## STORM AR Y CLAWDD

Briw fel bwriadau
yw coed y Clawdd mewn storm,
a gwyro'n daeog a wna'r deri
dan ormes gwynt.
Y llwyfen hithau
sy'n lleisio poen
dan ffrewyll y ffrydli,
ac o enau'r masarn dolurus
daw suon sur eu cwyno taer
dan afael gaeafwynt.

Eithr wedi storm,
daw rhin y pridd hwn i goed
o wraidd,
a'i rym a gyfyd eto
yng ngheinciau'r deri.
Llyfn yw twf y llwyfen
dan ei faeth,
ac ar y masarn,
mae'r graen a gryn
yn ei gelloedd pur.

Berw eto fel bwriadau
yw coed y Clawdd,
ac onid trech taerineb pridd
na'r gwynt o du Amwythig,
a'r glaw o dueddau Caer?

## 6

## DARLUNIAU'R CLAWDD

I oriel y Clawdd
daeth darlun y dydd,
yn ferw o liw o fore hyd hwyr
ar bared yr awyr.

Bore
a brigau brown a gryn ar wynder.
Dan haul,
gloyw yw sgleintiadau'r dail
ar rwyllwaith y canghennau symudliw;
wrth fôn colfenni,
paentiwyd y gwair mewn pwyntiliadau,
a naws goleuni sy'n glynu
wrth liwiau'r Clawdd.

I'r oriel hon,
daeth darlun y dydd,
a ninnau, syllwn
â'n llygaid Cymreig
fel ar gynfas gan Cézanne.

Hwyr,
ac unlliw yw'r darlun llwyd-ddu
o'r Clawdd dan gaddug.
Coed a dry'n wrachod
mewn carpiau dail,
eu breichiau'n bachu'r gwyll,
a'u hwynebau'n grechwen o frigau.
Celanedd o geinciau
a orwedd yn nrysi'r gwifrau pren,
a sgrech o linellau
yw'r gwair poenus
dan gelfyddyd swrealaidd yr hwyr.

I oriel y Clawdd
daeth darlun y nos,
a ninnau a syllwn
ag ofn yn ein llygaid Cymreig.

## 7

## GOLWG AR Y CLAWDD

Yma y tyf delweddau fel dail,
asiadau o ddeuoliaethau syn
a gryn yn undod gwyrdd
ar gainc y deall.

Yng nghynnwrf y brigau hyn
mae pelydrau o gymariaethau byw
yn llathru rhwng awyr a phren,
a throsiadau hefyd
sy'n tywynnu fel diferion o ystyr
ar risglau'r ynn.
Adar a gasglant yn y llwyfen lefn,
fel teuluoedd o eiriau clòs,
yn gynnes eu sgwrs
yng nghysur cynghanedd canghennau.

Yn rhwyllwaith y brigau hyn,
mae ffenest o ffurfiau'n ymloywi,
gwydr a phlwm yw aer a phren,
a berw'r tes
sy'n dasgiadau o ddarluniau llosg
yn y deri eglwysig.

Rhythmau'r haul sy'n siglo heddiw
yng ngherddoriaeth y Clawdd,
ac alaw Gymreig o gysgod a golau
sy'n esgyn ac yn disgyn,
sy'n disgyn ac yn esgyn
    o fôn i frig
    ac o frig i fôn.

## 8

## AR GOED Y CLAWDD

Gwylanod am egwyl
sy’n glynu wrth frigau’r coed hyn,
yn glymiadau o blu a golau,
yn asiadau o liwiau a haul.
Eu blas sydd o lymder heli,
a sawr gwymon, o’u gweled,
sy’n llifo o agen y cof.

Ystlumod, mewn eiliadau o’r hwyr,
sy’n gwanu’r gwyll
ym mrigau’r coed hyn,
yn chwifiadau o garpiau briw,
yn rhwygiadau o dywyllwch.
Eu sŵn sydd o sychder lludw,
a thawch pydredd, o’u gweled,
sy’n codi o bridd y cof.

Mae gwylanod yr haul
a ‘stlumod y gwyll,
fel ieithoedd gwahanol,
yn synnu’r synhwyrau
rhwng brigau anwadal y coed hyn.

## 9

## GROGLITH Y CLAWDD

Ar Groglith y Clawdd,
croesau yw’r coed
lle crog Cristiau ein Cymreictod
dan ddrain.

Ar lwyfen,
            llafn o Grist melyn
dan hoelion sy’n llefain.
Ias yw o ddolur
            fel Iesu Gauguin.
Ysig ei dranc ar y cangau hyn,
fel marw ara iaith.

Ar dderwen,
            meingorff o Iesu glas
sy’n crio ar gangau,
ei ystum hirgul yn estyn fry
at awyr dywyll.
Dwfn,
                        fel o fedr El Greco
yw berw’r boen sy’n llenwi’r llygaid llosg.
Briwgnawd a gwaed ar dderi,
a iaith sy’n braenu’n y tir.

Ar onnen,
                        truan o Grist fioled
mewn gwewyr sy’n gwyro.
Llathriad o loes
                        fel o liwiau Dalí,
rhithiad o artaith,
gwaedd o gur
                        sy’n brudio braw
rhwng fframwaith y brigau hyn,
a iaith hefyd sy’n madru’n y tir.

# 602. Parti Llefaru

## Detholiad heb fod yn hwy na 4 munud o ‘Y Clawdd (Cyfres o Gerddi)’

## gan Bryan Martin Davies

Rhaid cynnwys y gerdd gyntaf, 'Ynom mae y Clawdd' fel rhan o’r cyflwyniad: gellir ei llefaru ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad, neu ei phlethu gyda cherdd neu gerddi eraill o’r gyfres

Ar Groglith y Clawdd,
croesau yw’r coed
lle crog Cristiau ein Cymreictod
dan ddrain,
ond ymhen tridiau,
onid egin fel sillafau gwyrdd
a fydd yn deilio ar frigau cynhyrfus
y llwyfen,
            y deri,
                        a’r ynn?

## 602. Parti Llefaru

Detholiad heb fod yn hwy na 4 munud o 'Y Clawdd (Cyfres o Gerddi)'
gan Bryan Martin Davies

Rhaid cynnwys y gerdd gyntaf, 'Ynom mae y Clawdd' fel rhan o'r cyflwyniad: gellir ei llefaru ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad, neu ei phlethu gyda cherdd neu gerddi eraill o'r gyfres

**10**

### HAF AR Y CLAWDD

Mehefin;
a'r haf sy'n llenydda yng nghoed y Clawdd
o fore hyd hwyr.

Fel geiriau mewn cerdd,
dethol yw'r dail yng nghystrawen ceinciau,
a brawddegau o newyddfrig ffraeth
sy'n ffrydio ar ddalennau'r ynn.
Straeon sy'n dirwyn fel oriau difyr
yng nghyfrolau'r deri,
ac ysgrifau, caled fel cnau,
sy'n diddori'r dydd
rhwng cloriau'r cyll.

Gorffennaf,
a'r haf sy'n arlunio yng nghoed y Clawdd
o fore hyd hwyr.

Fel ar gynfas,
esgyn mae'r ysgaw mewn berw o baent,
yn bwyntiliadau o betalau a gwres.
Estyn hefyd mae'r bedw,
mewn ewyniadau o wyrddni,
ymloywant fry
rhwng fframwaith y llechweddau pell.
Lledu wedyn a wna'r helyg
mewn darlun llydan,
sgleintiadau o liwiau'n glawio
o'u cangau isel.

Ym Mehefin a Gorffennaf,
mae llenyddiaeth ac arluniaeth yr haf
yn frwd yng ngwarineb y coed hyn,
cyn dyfod
Philistiaeth yr hydrefwynt dig
o gyrrau estron y tir llwyd
i ddifa'r Clawdd.

## 602. Parti Llefaru

Detholiad heb fod yn hwy na 4 munud o 'Y Clawdd (Cyfres o Gerddi)'
gan Bryan Martin Davies

Rhaid cynnwys y gerdd gyntaf, 'Ynom mae y Clawdd' fel rhan o'r cyflwyniad: gellir ei llefaru ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad, neu ei phlethu gyda cherdd neu gerddi eraill o'r gyfres

### 11

### COED Y CLAWDD

Beth yw'r golau sydd heno'n glynu
wrth fronnau'r fasarnen fwyn,
y llathriad sy'n esgyn yn ystum yr ysgaw,
a'r llewyrch sy'n lledu o groth y llwyfen lefn?

Mewn awdl o olau
moli mae coed y Clawdd
am eu geni dan ofal yr haul hwn,
am fydryddiaeth melyn ei des
a fu'n fframwaith i rythmau eu dail,
am eiriasau ei wres Cymreig
a fu'n llunio cynghanedd eu ceinciau,
ac am ddelweddau ei oleuni hael
a fu'n crynu fel ystyr rhwng eu brigau.

Mewn alaw o olau
canu mae coed y Clawdd
am eu geni o'r pridd hwn,
am gysur y celloedd carcus
a fu'n nawdd i'w hegni gwyrdd,
am y gweryd gwâr
a fu'n cynnau ac yn cynnal
gwawr eu twf
drwy'r blynyddoedd tywyll,
ac am y grym Cymreig
a fu'n gweithio fel cariad
yn nygnwch eu gwreiddiau.

Mewn
          gwefr o fydr,
mewn
          cynnwrf o gân,
canmol mewn golau mae coed y Clawdd
am orfoledd eu bod.